Rhif: **WG27292**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau Diogel

Dyddiad cyhoeddi: **Rhagfyr 2015**

ISBN Digidol 978 1 4734 5374 6
OGL © Hawlfraint y Goron 2015

## Cyflwyniad

Ar 2 Gorffennaf 2015, cyhoeddodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi a'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus lwybr drafft a fyddai'n destun ymgynghoriad ac y bwriadwyd iddo helpu i sicrhau bod plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n gadael sefydliadau diogel yn elwa i raddau cyfartal ar y dyletswyddau atal digartrefedd newydd.

Diben yr ymgynghoriad oedd helpu i gasglu safbwyntiau ac adborth ynghylch y broses a gynigiwyd gan y Gweithgor Llety ac Adsefydlu Carcharorion ac a oedd wedi'i chynnwys yn nogfen ddrafft y *Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau Diogel*.

### Ymgynghoriad

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 2 Gorffennaf 2015 a 24 Medi 2015. Darparwyd fersiynau ar-lein o'r ddogfen ymgynghori a'r ffurflenni ymatebion.

Gofynnwyd pum cwestiwn yn y ddogfen a chafwyd pump ar hugain o ymatebion i'r ymgynghoriad. Dangosir y rhestr o ymatebwyr isod ac mae'n cynnwys ymatebion gan Awdurdodau Lleol, Cymdeithasau Tai, sefydliadau'r trydydd sector, sefydliadau ambarél, sefydliadau academaidd, asiantaethau cyfiawnder troseddol, a gweithwyr iechyd proffesiynol.

| **Ymatebwyr** | |
|---|---|
| Cymdeithas Seicolegol Prydain | Cymdeithas Tai Cadwyn |
| Prifysgol Caerdydd | Comisiynydd Plant Cymru |
| Dinas a Sir Abertawe | Cartrefi Cymunedol Cymru |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Cymorth Cymru |
| Cyngor Sir Ddinbych | Gofal Cymru |
| Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth | Llamau |
| Cyngor Sir Penfro | Cyngor Sir Powys |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | Coleg Brenhinol y Seiciatryddion |
| Shelter Cymru | SNAP Cymru |
| Cymrodoriaeth Carchar Abertawe | Tai Pawb |
| Cymdeithas Tai Unedig Cymru | Cyngor Bro Morgannwg |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru |
| Rheolwyr Timau Troseddu Ieuenctid Cymru | |

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad. Mae'r ymatebion wedi'u hystyried ac maent wedi cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r *Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau Diogel* ymhellach.

**Ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad**

**1. A yw'r broses a nodir yn y Llwybr yn ddigon eglur i chi allu cadarnhau pwy sy'n gyfrifol am bob cam?**

Roedd 74% o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn o'r farn fod y Llwybr yn pennu'n glir pa sefydliad sy'n gyfrifol am bob cam o'r Llwybr.

- Roedd yr adborth yn hynod gadarnhaol, wrth i fwyafrif yr ymatebwyr ddatgan eu bod o'r farn fod y rolau a'r cyfrifoldebau wedi'u nodi'n glir.
- Roedd nifer o'r farn fod y siartiau llif yn ddefnyddiol, ond y byddai dynodydd ychwanegol yn ddefnyddiol i'r rhai nad yw argraffwyr lliw ar gael iddynt.

Roedd y 26% sy'n weddill yn teimlo nad oedd y Llwybr yn pennu'n glir pwy sy'n gyfrifol am bob cam.

- Mae angen sicrhau bod rôl y 'Rheolwr Troseddwyr' yn gliriach, yn arbennig o gofio'i gyfrifoldeb cyffredinol am oedolion sy'n gadael sefydliadau diogel.
- Mae angen i rai o'r cyfeiriadau at Awdurdodau Lleol fod yn gliriach er mwyn gwahaniaethu rhwng cyfrifoldebau o ran tai a gwasanaethau cymdeithasol. Yn arbennig, mae'n ymddangos nad oes digon o eglurder ynghylch y rôl arweiniol yn dilyn Dyfarniad Southwark, a benderfynodd mai'r Ddeddf Blant oedd y brif ddyletswydd o ran cefnogi'r rhai sy'n 16 a 17 oed.
- Awgrymodd Cymdeithas Seicolegol Prydain y byddai'r Llwybr yn elwa ar rôl gliriach i sefydliadau'r trydydd sector, yr heddlu, seicolegwyr a meddygon teulu/seiciatryddion.
- Byddai Cartrefi Cymunedol Cymru yn croesawu mwy o eglurder ynghylch rôl Cymdeithasau Tai yn y gwaith o weithredu'r Llwybr.
- Nododd rhai nad oes dim cyfrifoldeb clir i sicrhau cydraddoldeb o ran deilliannau i'r unigolion hynny o Gymru sydd mewn dalfa y tu allan i Gymru. Byddai'r Llwybr yn cael ei gryfhau gan gytundeb â charchardai y tu allan i Gymru i ddarparu cymorth digonol a llinell gyfrifoldeb glir er mwyn sicrhau bod y cymorth hwn yn cael ei ddarparu.

Mewn sylwadau eraill, argymhellwyd rhai pethau i'w hychwanegu at y Llwybr, gan gynnwys:

- Byddai mwy o wybodaeth am gefnogi carcharorion anabl yn ddefnyddiol o gofio'r tebygolrwydd y byddai oedi o ran dod o hyd i lety addas yn syth wedi iddynt gael eu rhyddhau.
- Mwy o wybodaeth am sut y dylai'r Llwybr weithio gyda phobl â dedfrydau byr.
- Mae angen eglurder ynghylch y meini prawf ar gyfer cael atgyfeiriad cynnar a phryd y bydd Awdurdod Lleol yn darparu mwy o gymorth cyn rhyddhau, pan fyddai hyn y tu allan i'r ddeddfwriaeth.
- Byddai'r ddogfen yn elwa ar adran ynghylch yr arferion gorau. Byddai hyn yn arbennig o ddefnyddiol mewn cysylltiad â chynnwys y trydydd sector.

Mae'r broses weithredu'n bwysig i'r ymatebwyr, a chafwyd sylwadau a nododd:

- Fod y broses yn glir, ond bod angen cefnogaeth yr holl sefydliadau sy'n rhan o'r broses, gan gynnwys staff gweithredol a phawb hyd at reolwyr uwch.
- Pryderon ynghylch a all y strwythurau ymdopi â chleientiaid â dedfrydau byr iawn neu sydd wedi'u galw'n ôl.

---

## 2. A yw'r broses a nodir yn y Llwybr yn mynd i'r afael yn ddigonol â gofynion Deddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014?

Roedd 82% o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn o'r farn fod y broses yn mynd i'r afael â gofynion Deddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014.

- Yn falch o weld y Llwybr, sy'n tynnu sylw at yr angen i ystyried y teulu cyfan wrth gynnal asesiad. Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru o'r farn y dylai'r Llwybr gyflwyno'r cyfle i ystyried y carcharor yn rhan o deulu ac annog asesiad craidd cyfannol o sefyllfa'r teulu gan gynnwys y sefyllfa o ran bod yn agored i niwed.
- O gofio'r materion ynghylch cymhwystra, efallai y byddai'r Llwybr yn elwa ar arweiniad ynglŷn â chynnwys Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015.

Roedd yr 18% sy'n weddill o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn – tua 1 o bob 5 o ymatebwyr - o'r farn nad oedd y broses yn mynd i'r afael â gofynion y ddwy Ddeddf.

- Roedd pwynt allweddol a fynegwyd yn ymwneud â'r mater o ran a yw'r ffurflen atgyfeirio'n gallu casglu gwybodaeth gan y cleient am ddisgwyliadau'r ymgeisydd (adran 62(6) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014). Ar ben hynny, nid yw'r ffurflen atgyfeirio yn creu cyfle i'r Awdurdod ddarparu adborth i'r cleient o ran ei ddisgwyliadau. Roedd teimlad bod hyn yn arbennig o bwysig o ran cyfleu'r neges am faterion sy'n ymwneud â'r stoc dai leol a/neu'r graddau y mae tai cymdeithasol ar gael.
- Nid yw'r plant yr effeithir arnynt oherwydd bod eu rhieni wedi'u carcharu yn cael sylw yn y Llwybr. Efallai fod cyswllt i'w wneud rhwng yr Offer Sgrinio Sylfaenol yn y Ddalfa a gwasanaethau i gefnogi teuluoedd yr effeithir arnynt drwy golli aelod o'r teulu oherwydd ei fod wedi mynd i'r carchar.
- Dylai fod mwy o ffocws ar wasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau yn y broses.
- Dylid gwneud yr iaith a ddefnyddir ym mharagraff 73 ynglŷn â newid sylweddol mewn amgylchiadau yn fwy eglur.
- Mae paragraff 113 yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl bobl ifanc sy'n cael eu cefnogi drwy'r Llwybr wybod beth yw eu cyfeiriad 7 diwrnod cyn iddynt gael eu rhyddhau. Beth sy'n digwydd os nad yw hyn yn bosibl?
- Nid yw'n glir ymhle y bydd gweithwyr proffesiynol meddygol yn y Llwybr, ond mae Cymdeithas Seicolegol Prydain yn argymell yr hyn a ganlyn:

- y dylai seicolegwyr fod yn rhan o’r gwaith o gynllunio ynghylch adsefydlu a’r gwaith o gynllunio a darparu cymorth;
- bod swyddogion adsefydlu’n cael yr hyfforddiant sydd ei angen i’w gwneud yn fwy ymwybodol o’r gronfa dystiolaeth ynghylch anghenion adsefydlu ar lefel seicolegol yn ogystal â lefel gorfforol;
- bod cyllido yn cael ei flaenoriaethau ar gyfer darparu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a’r Glasoed yng Nghymru, o gofio’r dystiolaeth glir fod angen mawr ymysg pobl ifanc;
- y dylai gwasanaethau eiriolaeth neu sefydliadau perthnasol yn y trydydd sector fod â rôl gryfach i archwilio’r gallu i elwa ar raglenni atal ac ymyrryd;
- nid yw’r asesiad risg yn cynnwys nodyn canllaw ynghylch sut i’w gwblhau;
- y dylid ystyried dull ffurfiol, wedi’i ddilysu o asesu anghenion iechyd meddwl gan ddefnyddio offer sgrinio fel rhan o’r asesiad risg; ac
- ystyried y gallai rhai o’r rheini sy’n gadael carchar elwa ar gymorth arbenigol i’w galluogi i ailsefydlu ymddygiadau rhianta ymaddasol sy’n sensitif ac yn briodol ar gyfer oed y plentyn.

- Mae perygl na fydd y rhai sy’n cael eu cadw mewn dalfa y tu allan i Gymru yn cael y cyngor mwyaf perthnasol ar gymorth a gwasanaethau digartrefedd sydd ar gael iddynt yng Nghymru.
- Mae pryder y bydd amseriad yr atgyfeiriad yn arwain at ddyletswyddau’n dod i ben cyn rhyddhau, a fydd yn arwain at bobl yn ymgyflwyno’n ddigartref ac yn eu cael eu hunain mewn llety argyfwng ar y gorau.

Unwaith eto, roedd gweithredu’r Llwybr yn fater y gwnaeth rhai ymatebwyr ei grybwyll:

- Roedd nifer o Awdurdodau’n pryderu am y diffyg gwybodaeth asesu risg a oedd yn dod i law gan y Rheolwyr Troseddwyr, a oedd yn arwain at oedi cyn cychwyn gweithgareddau.
- Mae cyfathrebu’n broses allweddol, ac mae profiad diweddar wedi dangos nad yw rhai staff adsefydlu’n ymwybodol o hunaniaeth rhai Rheolwyr Troseddwyr.
- Mae pryder y bydd materion o ran fforddiadwyedd yn cyfyngu’n sylweddol ar ddewisiadau pobl ifanc o ran tai.
- Mae pryder ynglŷn â gweithredu’r Llwybr, yn arbennig o gofio’r diffyg amser y bydd gan rai swyddogion adsefydlu gyda chleientiaid. Ymddengys y bydd angen adnoddau ychwanegol.
- Mae bwlch enfawr nad wedi’i gwmpasu gan y Llwybr yn achos y rhai sy’n gorfod aros i’w budd-daliadau ddechrau, sy’n cymryd hyd at bum wythnos weithiau. Er hynny, mae’r Llwybr yn disgwyl i Awdurdodau Lleol ganfod llety o’r diwrnod rhyddhau a fyddai’n creu goblygiadau sylweddol o ran adnoddau, gan gynnwys costau byw yn ogystal â rhent o flaen llaw.
- Bydd cymorth lleiafrif sylweddol o gleientiaid yn cael ei lesteirio’n ddifrifol gan eu hanes (ôl-ddyledion, difrod, ymddygiad gwrthgymdeithasol, trais domestig ac ymddygiad troseddol), yn arbennig ymysg rhai landlordiaid cyhoeddus a

phreifat. Mae diffyg eglurder yn y Llwybr ynghylch pa gymorth y gellid ei gynnig iddynt hwy.

- Bydd nifer o landlordiaid yn gwrthod cynnig eiddo i rywun sy'n gadael carchar heb gwrdd â hwy yn gyntaf. Bydd rhai eraill yn cynnig cyn rhyddhau, ond dim ond ar ôl datgeliad llawn o droseddau'r cleient, na fydd yr awdurdod lleol yn gallu ei ddarparu. Gallai'r senario hyn olygu y byddai'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol roi llety am gyfnod o 56 diwrnod o dan y dyletswyddau llety dros dro, a fydd yn gosod straen sylweddol ar adnoddau a'r cyflenwad.

Mynegwyd dau fater arall, sydd wedi'u cysylltu i raddau mawr â'r ddau ddarn o ddeddfwriaeth:

- Roedd rhai yn siomedig na wneir agyfeiriadau 12 wythnos cyn rhyddhau pan fo'r gwasanaeth adsefydlu'n cychwyn, yn hytrach nag aros nes cyrhaeddir 56 diwrnod cyn rhyddhau.
- Roedd pryder bod y gwaith o gynllunio'r adsefydliad yn wirfoddol yn achos y rhai a gyflawnodd drosedd cyn 1 Chwefror 2015.

---

**3. A yw'r Llwybr yn egluro'n ddigonol sut y dylai sefydliadau gydweithio i fynd i'r afael â digartrefedd ar gyfer y rhai sydd ar fin gadael sefydliad diogel?**

Canfu'r cwestiwn hwn y gwahaniaethau mwyaf o ran safbwyntiau ymysg y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Roedd 53% o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiynau o'r farn for y Llwybr yn egluro sut y dylai sefydliadau gydweithio i fynd i'r afael â digartrefedd; roedd 47% yn anghytuno.

Roedd cyfathrebu a gweithio mewn partneriaeth yn fater allweddol a grybwyllwyd yn yr ymatebion:

- Byddai'r Llwybr yn elwa ar wybodaeth am sut y bydd partneriaid yn cyfathrebu â'i gilydd.
- Annog partneriaethau ar lefel strategol yn ogystal ag ar lefel weithredol.
- Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gobeithio y bydd yr asesiad cychwynnol yn creu cyfle i drafod anghenion ychwanegol oedolion mewn perygl/plant mewn sefydliadau diogel.
- Gallai'r Llwybr elwa ar fwy o eglurder ynghylch ansawdd yr asesiadau risg a ddarperir.
- Mae cyfathrebu'n hollbwysig ar gyfer gweithredu'r Llwybr yn llwyddiannus ac mae problemau cychwynnol yn awgrymu bod angen gwneud llawer mwy o waith i ddatblygu perthnasoedd rhwng asiantaethau.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn fod angen mwy o fanylder o hyd yn y Llwybr:

- Mae'r Llwybr yn pennu'r cyfrifoldebau a'r prosesau eang, ond mae rhai o'r manylion penodol ar goll.

- Mwy o wybodaeth am y sefyllfa i bobl ifanc hyd at eu pen-blwydd yn 21 oed.
- Mwy o wybodaeth am y cam 7 diwrnod cyn rhyddhau, hynny yw, beth sy'n digwydd os nad yw llety addas wedi'i sicrhau.
- Roedd Comisiynydd Plant Cymru o'r farn y dylai'r Llwybr, er mwyn cynorthwyo swyddogion Timau Troseddwyr Ifanc, gynnwys gofyniad cryf i gynllunio o gychwyn y ddedfryd o garchar. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod llety brys yn cael ei osgoi.
- Efallai fod angen i'r Llwybr fod yn realistig ynghylch faint o weithgareddau y gall Awdurdod Lleol ymgymryd â hwy cyn i'r ymgeisydd gael ei ryddhau o'r carchar.
- Pan ddefnyddir llety Gwely a Brecwast, dylai'r Llwybr atgyfnerthu'r gofyniad cyfreithiol i gysylltu â'r Awdurdod Lleol cartref.
- Dylai cyfeiriadau at ddioddefwyr trais domestig gynnwys dioddefwyr gwrywaidd yn ogystal â dioddefwyr benywaidd.

Roedd eglurder yn parhau i fod yn thema allweddol yn yr ymatebion:

- Mae angen eglurder ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan nad yw ymarferydd Tîm Troseddwyr Ifanc yn fodlon ar addasrwydd llety sy'n cael ei ganfod i bobl ifanc pan gânt eu rhyddhau o'r carchar (paragraff 117).
- Mae'r gallu i ganfod llety i'w ddefnyddio ar adeg rhyddhau yn dibynnu ar lefel y cymorth sy'n cael ei gynnig tra bo rhywun mewn dalfa, ac felly gorau po gyntaf y gwneir atgyfeiriad. Yn y cyd-destun hwn, pam na ellir atgyfeirio 12 wythnos cyn rhyddhau?
- Mae nifer o gyfeiriadau at 'Awdurdod Lleol' yn hytrach na nodi pa adran yn yr Awdurdod Lleol.
- Byddai'r Llwybr yn cael ei gryfhau pe bai rôl therapyddion galwedigaethol yn cael ei chynnwys yn y broses asesu.
- Byddai'r Llwybr yn cael ei gryfhau drwy ddatgan yn glir y dylai'r sefydliadau hynny sy'n arbenigo mewn materion iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau yn ogystal â gofal cymdeithasol oedolion gymryd rhan weithredol yng nghamau cynharaf y Llwybr.
- Dylai'r Llwybr gyfeirio'n uniongyrchol at y Partneriaethau Ailintegreiddio ac Ailsefydlu sy'n cael eu sefydlu ledled Cymru. Efallai y dylai fod gofyniad bod pobl ifanc yn cael eu hatgyfeirio at eu Partneriaeth leol pan fyddant yn mynd i ddalfa.
- Nid oes sôn am sut y bydd rhaglen Cefnogi Pobl yn cymryd rhan yn y gwaith o gefnogi cyn-droseddwyr ac mae Cefnogi Pobl o bwys mawr er mwyn mynd i'r afael â chyfraddau aildroseddu.
- Yr Awdurdod Lleol yn gorfforaethol sy'n gyfrifol am asesiadau craidd Awdurdodau Lleol, ond mae teimlad mai gwasanaethau plant ddylai fod yn gyfrifol yn achos Llwybr pobl ifanc.

Gweithredu:

- Roedd nifer o ymatebwyr â sylwadau cadarnhaol ynghylch theori'r Llwybr, ond mae profiadau cynnar wedi awgrymu bod yr ymarfer yn wahanol wrth i atgyfeiriadau ac asesiadau risg beidio â dod i law o fewn cyfnodau penodedig,

ac roedd cyfanrwydd a chywirdeb y wybodaeth a ddarperir yn fater a grybwyllwyd hefyd.

- Roedd rhai o'r farn fod cywirdeb ac amseroldeb y ffurflen atgyfeirio a gwblhawyd yn hollbwysig o ran ysbryd y Llwybr.
- Ymddengys fod gorddibyniaeth ar Awdurdodau Lleol i ganfod llety ar gyfer y rhai sy'n gadael carchar, ond bydd y bonws taliadau yn ôl canlyniadau yn cael ei gasglu gan y Cwmni Adsefydlu Cymunedol, na fydd wedi chwarae fawr o ran weithredol, neu ddim rôl weithredol, yn y broses, mewn nifer o achosion.

---

**4. Ydych chi'n teimlo y gellid cryfhau'r Llwybr neu ei wneud yn haws i'w ddefnyddio?**

Er yr adborth cadarnhaol a gafwyd, roedd 65% o'r ymatebwyr o'r farn y gallai'r Llwybr elwa drwy ei fireinio ymhellach i'w gryfhau.

- Roedd rhai o'r farn y gallai'r perthnasoedd rhwng awdurdodau effeithio ar broses y Llwybr, ond bod cyfle yma i'r Llwybr greu'r cysylltiadau cynnar hynny.
- Mwy o wybodaeth ynghylch pwy ddylai sicrhau bod manylion cyswllt allweddol yn gyfoes.

Cynigiodd mwyafrif y sylwadau y dylid diwygio'r Llwybr i sicrhau mwy o eglurder a diogelwch i rai grwpiau o gleientiaid:

- Mae angen i'r Llwybr ar gyfer Plant a Phobl Ifanc fod yn gliriach ynghylch gwaith y Tîm Troseddwyr Ifanc ar hyd y daith.
- Byddai'r Llwybr yn elwa ar esboniadau ynglŷn â pham y mae'r sbardunau 66 a 7 diwrnod yn bwysig.
- Mae pryder ynghylch toriadau i Raglen Cefnogi Pobl yn tanseilio rôl Awdurdodau Lleol o ran canfod llety.
- Mae pryderon ynghylch anghysondeb yn y dull o weithredu'r Llwybr o gofio rôl y Cwmni Adsefydlu Cymunedol gydag oedolion a rôl Timau Troseddwyr Ifanc gyda phlant a phobl ifanc.
- Nid yw'r geiriad ynghylch osgoi defnyddio llety Gwely a Brecwast a geir yn y Llwybr i oedolion (paragraff 69) wedi'i gynnwys yn y Llwybr ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae Comisiynydd Plant Cymru o'r farn y ceir cyfle yma i wneud datganiad clir o fwriad polisi nad yw llety Gwely a Brecwast yn addas i bobl ifanc.
- Gan y bydd plant sy'n derbyn gofal â hawl i gynnig gweithredol o eiriolaeth, byddai'n cryfhau'r Llwybr pe bai hyn yn cael ei gynnwys yn y cymorth a gynigir yn ystod y ddedfryd ac ar adeg rhyddhau.
- Mae'r Llwybr ar gyfer plant a phobl Ifanc yn rhoi gormod o bwyslais ar yr Angen Blaenoriaethol. Dylai'r Llwybr atgyfnerthu'r ffaith na ddylid ond ei ddefnyddio'n ddull diogelu a dylai gwaith atal gael ei wneud cyn rhyddhau beth bynnag.
- Byddai'r Llwybr yn elwa ar gymorth ychwanegol i garcharorion cyn iddynt gael eu rhyddhau o ran pethau fel dysgu sut i sefydlu a chynnal tenantiaeth, cynnal

rhwydweithiau cymdeithasol a chymorth cymdeithasol i helpu gyda mynd i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

- Byddai'r Llwybr yn elwa ar fwy o wybodaeth am gefnogi troseddwyr cyson iawn a'r rhai sydd â dedfryd fer (hynny yw, 14 diwrnod).
- Rhaid i'r Llwybr bwysleisio bod rhaid i Gydgysylltwyr Gofal sy'n gyfrifol am ddefnyddwyr gwasanaethau o dan Ran 2 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) fynd i adolygiadau critigol ynghylch adsefydlu er mwyn helpu gyda pharhad gofal eu cleifion. Mae hwn yn ofyniad statudol.
- Nid yw'r Llwybr yn mynd i'r afael ar hyn o bryd â'r ffaith bod pobl o grwpiau pobl dduon neu leiafrifoedd ethnig yn cael eu gorgynrychioli yn y system garchardai. Byddai'r Llwybr yn cael ei wella pe bai ymrwymiadau'n cael eu cynnwys i ddarparu cyngor a gwybodaeth i garcharorion mewn fformatau hygyrch.
- Er hwylustod o ran ei ganfod, dylai'r diffiniad o lety addas a geir yng Ngorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015 gael ei nodi yn y Llwybr.
- O gofio anghenion iechyd meddwl tebygol rhan fwyaf y grŵp cleientiaid, mae angen atgyfeiriadau awtomatig i wasanaethau priodol ar gyfer pobl ifanc.
- Dylai'r ffurflen atgyfeirio ofyn am hanes llawn unigolyn o ran y tai y bu'n byw ynddynt.

Roedd gweithredu yn bwynt allweddol unwaith eto:

- Barnwyd bod cyfathrebu'n hollbwysig i'r broses. Mae angen i Swyddogion Ailsefydlu fod yn ymwybodol o ofynion Awdurdodau Lleol a'r angen i gael cymaint o amser ag sy'n bosibl.
- Ar ben hynny, roedd cywirdeb a chyfanrwydd y wybodaeth sy'n cael ei rhannu yn flaenoriaeth allweddol i nifer o ymatebwyr unwaith eto.

---

## 5. A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am y Llwybr?

Manteisiodd 73% o'r ymatebwyr ar y cyfle i ddarparu sylwadau ychwanegol am y Llwybr mewn ymateb i gwestiwn pump ac, o gofio natur gyffredinol y cwestiwn, roedd ystod y sylwadau'n eang.

Unwaith eto, cafwyd sylwadau cadarnhaol am y Llwybr gan yr ystod lawn o ymatebwyr:

> *Yn parhau'n hyderus y bydd proses y Llwybr yn gweithio'n effeithiol yn y pen draw.*
>
> *Rydym yn llwyr gefnogi egwyddorion y cynnig a'r pwyslais ar anghenion yr unigolyn o ran tai … Byddem yn gobeithio bod ysbryd a naws gweithio mewn partneriaeth yn cael ei ystyried i'r un graddau er mwyn sicrhau llwyddiant y llwybr.*
>
> *Yn teimlo bod y Llwybr yn ganllaw defnyddiol i'r swyddi gwahanol, ac roedd y tablau a'r siartiau llif yn arbennig o ddefnyddiol.*

*Yn falch iawn o weld bod cymorth ychwanegol ar gyfer menywod sy'n gadael y carchar yn cael ei ystyried.*

Tra bo ymatebion eraill yn cynnwys gwelliannau neu ddiwygiadau mwy penodol y gellid eu gwneud i'r Llwybr, roedd rhai'n ailddatgan ymatebion a gafwyd mewn cwestiynau cynharach, yn eu hymatebion eu hunain ac ymatebion eraill. Mae'r hyn a ganlyn yn rhestr o'r sylwadau hynny nad ydynt wedi'u cynnwys eisoes mewn adborth blaenorol:

<u>Rhannu data:</u>

Roedd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ategu'r farn fod awdurdodau cyhoeddus yn gweld mwy o broblemau'n gysylltiedig â rhannu data nag a geir mewn gwirionedd. Mae'n awgrymu y dylid cyfeirio at Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) ac y dylid cryfhau'n sylweddol y geiriad ynghylch awgrymu bod e-byst diogel yn cael eu trefnu ymysg awgrymiadau eraill.

<u>Hyfforddiant Ychwanegol:</u>

Canolbwyntiodd nifer o'r ymatebion ar fater hyfforddiant, a hynny ar gyfer y sefydliadau sy'n helpu i adsefydlu'r rhai sy'n gadael carchar yn ogystal ag i'r unigolion hynny sy'n gadael carchar.

- Byddai Cymrodoriaeth Carchar Abertawe yn croesawu cymorth a hyfforddiant ychwanegol i bobl sydd ar fin cael eu rhyddhau i'w helpu i ganfod a chadw llety pan gânt eu rhyddhau.
- Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn awgrymu y byddai sesiynau codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ychwanegol, yn arbennig ynghylch y Llwybr ar gyfer plant a phobl ifanc, o fantais o ran helpu i sicrhau bod ymarferwyr Timau Troseddwyr Ifanc yn gyfarwydd â'r Llwybr a'r ddeddfwriaeth ddigartrefedd newydd.
- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn hefyd fod y cyfnod a dreuliwyd mewn dalfa yn gyfle i ddarparu hyfforddiant ychwanegol i'r carcharor, a hynny nid yn unig er mwyn gwella'i addysg a'i hyfforddiant ond i'w helpu i baratoi ar gyfer tenantiaeth. Cafodd hyn ei grybwyll gan gyfeirio'n benodol at gymorth ar gyfer pobl ifanc sydd yn aml yn ei chael yn anodd ymdrin â thenantiaethau oherwydd diffyg profiad o faterion sylfaenol cynnal tenantiaeth. Bydd hefyd yn helpu i wella'r posibilrwydd y byddant yn cael tenantiaeth pan gânt eu rhyddhau boed mewn eiddo yn y sector rhentu preifat neu eiddo Cymdeithas Dai.
- Roedd rhai o'r farn hefyd y gallai'r hyfforddiant hwn gynnwys elfen o ddatblygiad gan gymheiriaid, gan anelu at greu rhwydwaith o gymheiriaid ar ôl rhyddhau y mae'r rhai sy'n gadael carchar yn gallu ymwneud ag ef er mwyn eu helpu gyda'u proses adsefydlu.
- O ran hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth, roedd rhai o'r farn fod angen i'r Llwybr gael ei gyfleu i garcharorion a'u teuluoedd, gan gynnwys â fersiynau hawdd eu darllen.

Cadarnhau cyfeiriadau:

Cafwyd ymateb mewn cysylltiad â gwaith Awdurdodau Lleol i ddilysu cyfeiriadau, pan fo'r sawl sy'n gadael y carchar wedi nodi, pan gafodd ei ryddhau, fod ganddo rywle i aros ar ôl ei ryddhau.  Nid yw'r Llwybr yn darparu fawr o wybodaeth ynghylch sut y dylid gwneud hyn ac nid oes dim gwybodaeth ynghylch pa adnoddau a fydd yn cael eu defnyddio.

Remánd:

Er mai unwaith yn unig y cafodd hyn ei grybwyll, mynegwyd pwynt arwyddocaol mewn cysylltiad â lefel y gwasanaeth a ddisgwylir yn achos defnyddwyr gwasanaethau sydd ar remánd ac sydd â dyddiadau rhyddhau ansicr.

Hawliau'r Plentyn o ran y Cenhedloedd Unedig:

Nododd Comisiynydd Plant Cymru fod y Llwybr wedi methu â chyfeirio at Hawliau'r Plentyn o ran y Cenhedloedd Unedig yn y ddogfen. O gofio mai dyma gonglfaen Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, a osododd ddyletswydd ar bob un o Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i hawliau plant wrth iddynt arfer unrhyw un o'u swyddogaethau, mae hwn yn fater pwysig a hepgorwyd.

Oedi o ran talu hawliadau budd-dal:

Roedd ymatebydd o'r farn fod angen i'r Llwybr gyfeirio at ôl-dalu hawliadau budd-dal o ganlyniad i Gredyd Cynhwysol, ac adlewyrchu'r mater hwnnw.  Mae hwn yn fater arbennig, sy'n ymwneud â'r rhai sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau, o gofio'r posibilrwydd i rywun gael taliad am ôl-ddyledion 5 wythnos. Mae'r posibilrwydd y bydd yn camddefnyddio sylweddau eto ac wedyn yn mynd i ôl-ddyledion rhent yn arbennig o fawr.

Rhannu data a chymorth i ddioddefwyr a'r rhai sydd wedi cyflawni trais domestig:

Nid yw'r Llwybr yn egluro sut y bydd y rhai sydd â hanes o drais domestig, ond nad ydynt wedi'u cadw mewn dalfa o ganlyniad i drais domestig, yn cael eu hasesu o ran risg ac y bydd y wybodaeth am risg yn cael ei throsglwyddo i Awdurdodau Lleol. A ellid darparu rhaglen hyfforddiant i gyflawnwyr cyn eu rhyddhau?

Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'r adrannau sy'n ymwneud â cham-drin domestig a throseddu gan fenywod yn elwa drwy gael eu datblygu ymhellach. Gallai hyn helpu i sicrhau bod Swyddogion Ailsefydlu ac Awdurdodau Lleol yn gyson wrth wneud penderfyniadau ac o ran y cymorth y trefnir iddo fod ar gael ledled Cymru.

Defnyddio mangreoedd a gymeradwywyd:

Nid yw'r Llwybr yn cyfeirio at Mangreoedd a Gymeradwywyd a byddai cyfarwyddyd clir ar gyfer Awdurdodau Lleol ynghylch eu defnyddio'n cael ei groesawu.

Y rhai a gyflawnodd drosedd cyn dyddiad Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014:

O ystyried bod Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014 yn rhoi system ar waith ar gyfer darparu cymorth adsefydlu a goruchwyliaeth ar ôl rhyddhau i'r rhai a gyflawnodd drosedd ar ôl 1 Chwefror 2015 yn unig, nid yw'r Llwybr yn glir o ran sut y bydd y rhai a gyflawnodd drosedd cyn 1 Chwefror 2015 (a fydd yn cael y gwasanaeth adsefydlu ar sail wirfoddol) yn cael eu cefnogi.

Eiddo gwag:

Mae'n debyg y bydd y materion ymarferol sy'n ymwneud â helpu rhywun i ymgymryd â thenantiaeth ar ddiwrnod ei ryddhau yn ei gwneud yn ofynnol i'r eiddo o dan sylw yn y denantiaeth fod yn wag nes bod yr ymgeisydd yn barod i fyw yno. Byddai'r Llwybr yn elwa ar arweiniad ychwanegol ynglŷn â lefelau eiddo gwag derbyniol neu a awgrymir.

Sgrinio o ran niwroanableddau:

Mae Cymdeithasol Seicolegol Prydain yn awgrymu ei bod yn ymddangos bod diffyg dealltwriaeth o niwroanableddau a'u heffaith bosibl ar bobl ifanc sy'n troseddu. Mae angen defnyddio systemau sgrinio presennol i sicrhau y rhoddir cymorth priodol.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:

O ystyried y cysylltiadau amlwg, awgrymwyd y gellid cyfuno'r Llwybr hwn â Llwybr Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Prif ofalwyr:

Dylid cyfeirio at y risgiau uwch posibl a geir pan fo cyn-droseddwyr hefyd yn brif ofalwyr ac yn ailsefydlu cysylltiadau.

**Sylwadau i gloi**

Mae cefnogaeth i'r broses sydd wedi'i hamlinellu ac i'r ysbryd partneriaeth a anogir yn y Llwybr, sy'n cael ei adlewyrchu gan ymrwymiad pob un o'r sefydliadau a fu'n rhan o'r gwaith o'i ddatblygu. Mae'r ymgynghoriad wedi canfod nifer o feysydd ychwanegol i'w datblygu ymhellach, a fydd yn cael eu hystyried wrth fireinio'r Llwybr.

Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad. Bu eich sylwadau'n bwysig o ran llywio datblygiad parhaus y Llwybr ac rydym yn ddiolchgar iawn am eich cyfraniadau.